**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

22 Tachwedd 2021

Annwyl Julie,

Adolygu *Ffyniant i bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd – cynllun i Gymru ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd*

Yn ein cyfarfod ar 11 Tachwedd, cawsom gyflwyniad gan y Farwnes Brown o Gaergrawnt, Cadeirydd y Pwyllgor Addasu - Pwyllgor Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU, ar yr Adroddiad Technegol ar Asesiad Risg Newid Hinsawdd y Pwyllgor a'i Adroddiad Cynghori, a gyhoeddwyd fis Mehefin 2021.

Mae Adroddiad Cynghori Pwyllgor Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU yn ddigon i'ch sobreiddio. Mae'n dangos yn glir yr her sy'n wynebu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru yn cael ei diogelu rhag effeithiau gwaethaf y newid yn yr hinsawdd.

Yn ystod ein trafodaeth â'r Farwnes Brown, esboniodd nad yw'r Pwyllgor Addasu, hyd yma, wedi bod yn rhan o'r broses o asesu cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd, sef *Ffyniant i bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd* ('y cynllun addasu') a'r cynnydd a wnaed o safbwynt rhoi'r cynllun hwnnw ar waith. Fodd bynnag, dywedodd y byddai'r Pwyllgor Addasu'n agored i ymgymryd â gwaith o'r fath pe bai Llywodraeth Cymru yn gofyn iddo wneud hynny.

Credwn y byddai asesiad annibynnol gan y Pwyllgor Addasu yn cynnig gwaith craffu allanol pwysig na fyddai, fel arall, yn rhan o'r broses adolygu.

– A allwch chi egluro a ydych yn bwriadu cynnwys y Pwyllgor Addasu yn y broses o adolygu'r cynllun addasu presennol ac, os felly, sut a phryd y bydd hynny'n digwydd?

I droi at fater cysylltiedig, yn ôl y Fframwaith Monitro a Gwerthuso sy'n cyd-fynd â'r cynllun addasu, Mae Bwrdd Llywodraethu Portffolio Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru (y Bwrdd Llywodraethu) yn cwrdd yn rheolaidd i drafod cynnydd o safbwynt cyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd yn cynllun ac yn *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel* (a ddisodlwyd gan *Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 25)*.

Mae’n mynd rhagddo i nodi bod y Bwrdd Llywodraethu, “yn ei dro…yn adrodd wrth **bwyllgor pwnc y Senedd ar y Newid yn yr Hinsawdd** (ychwanegwyd y pwyslais) ac wrth Gabinet Llywodraeth Cymru”.

– A allwch chi egluro sut a phryd y gall y Pwyllgor ddisgwyl cael ei adroddiad cynnydd cyntaf gan y Bwrdd Llywodraethu, a pha mor rheolaidd y bydd yn cael adroddiadau wedi hynny?

Yn olaf, nodwn fod Pwyllgor Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2021, i ddweud y byddai’n newid ei arfer mewn perthynas â’i Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd drwy’r DU i Senedd y DU. Mae’r llythyr yn awgrymu na allai’r Pwyllgor gynnwys data allyriadau Cymru ar gyfer 2019 yn yr Adroddiad Cynnydd diweddaraf ar gyfer y DU (Mehefin 2021) gan na chawsant eu cyhoeddi mewn da bryd. Mae’n egluro na fydd data allyriadau Cymru, yn y dyfodol, yn cael eu cynnwys yn Adroddiadau Cynnydd y DU oni bai y byddant ar gael mewn pryd i’w dadansoddi. Deallwn fod Pwyllgor Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu llythyr tebyg at y gweinyddiaethau datganoledig eraill hefyd.

– A allwch chi rannu’ch ymateb i Bwyllgor Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU â ni, a’i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru?

– A allwch chi egluro goblygiadau hyn yn ymarferol a dweud a ydych chi wedi’ch sicrhau na chaiff hyn unrhyw effaith ar allu’r Senedd i graffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru o safbwynt lleihau allyriadau?

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ymateb i’r uchod cyn gynted â phosibl, ac erbyn 6 Rhagfyr 2021 fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.